



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Adolygiad Prosiect Safleodd Ffocws B & B Jones Nant Goch Penybont Croesoswallt Sir Amwythig SY10 9JG

Dyddiad: Mai
2017
Paratowyd
gan: Sam Evans
Kite Consulting
Dunston Business
Village
Dunston
Staffordshire
ST18 9AB

Ffôn: 07970
493336
E-bost:
sam.evans@kiteconsulting.com



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Contents

1.0 Crynodeb.....	1
1.1 Manylion y fferm	1
1.2 Amcanion allweddol y prosiect.....	1
1.3 Llwyddiannau'r prosiect.....	3
1.4 Newidiadau mewn Dangosyddion Perfformiad Allweddol.....	3
1.5 Sylwadau'r ffermwr	4
2 Adolygiad Busnes.....	5
2.1 Data fferm cymharol.....	5
2.2 Canlyniadau Profion.....	6
2.3 Dangosyddion Perfformiad Allweddol	6
3 Adolygiad o'r Prosiect.....	7
3.1 Dadansoddiad SWOT	7
3.2 Manteision ar gyfer busnesau llaeth eraill yng Nghymru	8
3.3 Cydnawsedd gyda nodau strategol y sector llaeth	8
4 Effaith ar y diwydiant	8
4.1 Effaith ar fusnesau unigol	8
4.2 Effaith ar y diwydiant ehangach	8
4.3 Effaith ar themâu trawsbynciol a themâu blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.....	9

1.0 Crynodeb

1.1 Manylion y fferm

Mae Nant Goch, Penybont, Croesoswallt, yn ddaliad 1,035 erw yn Nyffryn Tanat, yn ymestyn i 600 troedfedd uwch lefel y môr. Mae 70 erw o'r fferm yn berchen iddynt, gyda 180 erw ychwanegol ar denantiaeth 38 mlynedd, 220 erw (daliad cyfagos) ar denantiaeth 12 mlynedd, gyda'r 565 erw sy'n weddill ar denantiaeth tymor byr ar dir o fewn pum milltir i'r daliad. Mae'r gyfradd stocio cyffredinol yn 1 erw i bob buwch.

Mae'r fferm yn cadw buches o 760 o fuchod Ilaeth Holstein Friesian sy'n lloea ar system trwy gydol y flwyddyn, gyda pholisi bridio bod cyfuniad o semen du a gwyn a Ilaeth yn cael ei ddefnyddio gyda tharw potel. Mae lloi Ilaeth cyfnewid (460 pen) hefyd yn cael eu magu i ddod â lloi yn ddyflwydd oed, ac mae cyfran fechan o loi Ilaeth cyfnewid hefyd yn cael eu magu ar contract ar ddaliad cyfagos.

Mae siediau ar gyfer y fuches laeth yn cynnwys 720 o giwbiclau, gan ddefnyddio tywod oddi tanynt, ac mae'r buchod sy'n weddill yn cael eu cadw'n rhydd mewn siediau.

Mae heffrod sy'n gofyn tarw'n cael eu cadw dan do mewn ciwbiclau gan ddefnyddio rhwystrau pen yn Nant Goch, gyda siediau pwrpasol ar gyfer lloi a heffrod ifanc. Mae 321 ciwbicl ychwanegol a siediau agored ar gael ar ail ddaliad ar gyfer yr heffrod sy'n weddill a'r buchod sych.

Mae'r gwartheg yn cael eu godro deirgwaith y dydd mewn parlwr cylchdro Dairy-master 50 pwynt, gydag iard gasglu 320 o wartheg a giatiau gwahanu awtomatig a chyfleusterau golchi traed. Mae'r fferm yn defnyddio polisi bridio dwys gan roi sialc ar fuchod i adnabod arwyddion o ofyn tarw.

Amcanion Busnes:

- Creu gwarged elw i ganiatau ail-fuddsoddi parhaus, cynyddu asedau a pherfformiad technegol
- Lleihau lefelau dyled
- Cadw maint y fuches ar 800 o wartheg
- Dod i arfer gyda rheoli tywod
- Cynyddu cynnyrch y fuches i 11,000 litr y fuwch gan gadw ansawdd Ilaeth ar yr un pryd

1.2 Amcanion allweddol y prosiect

Mae mastitis yn nodweddiadol yn un o'r prif ffactorau iechyd ar ffermydd Ilaeth.

Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Reading yn y 1960au wedi arwain at greu cynllun pum pwynt sydd wedi'i anelu at reoli lledaeniad mastitis rhwng gwartheg wrth odro.

Gwnaed cynnydd sylweddol gan y diwydiant gyda nifer yr achosion ar draws y wlad yn lleihau o fwy na 150 achos fesul 100 buwch y flwyddyn mewn rhai buchesi i 40 achos fesul 100 buwch y flwyddyn

thwng 1967 a 1982. Mae cyfrif celloedd somatig y tanc llaeth hefyd wedi lleihau o dros 600,000 cell/ml i 400,000 cell/ml.

Roedd gwaith ymchwil mwy diweddar a wnaed yn 2004-2005 yn dangos mwy o achosion o fastitis clinigol mewn buchesi'r DU nag a feddylwyd yn wreiddiol, gydag ambell fferm yn cofnodi dros 100 achos fesul 100 buwch y flwyddyn. Roedd hyn yn ei dro yn codi cwestiynau p'un ai yw'r holl ffactorau risg yn cael eu harchwilio'n llawn ar ffermydd ai peidio.

Ariannwyd gwaith ymchwil gan DairyCo (AHDB Llaeth erbyn hyn) i ddatblygu Cynllun Rheoli Mastitis DairyCo yn 2004 mewn buchesi gyda mwy o achosion o fastitis clinigol, gyda chanlyniadau cychwynnol yn dangos y gallai cynllun strwythuredig gynnig manteision sylweddol ar gyfer rheoli mastitis. O ganlyniad, cyflwynwyd Cynllun Rheoli Mastitis DairyCo yn genedlaethol yn 2009.

Y prif amcan oedd cyflwyno Cynllun Rheoli Mastitis Cenedlaethol AHDB Llaeth i fusnes y fferm. Byddai'r asesiad busnes cychwynnol yn anelu at amlygu'r meysydd risg mwyaf ar gyfer mastitis o fewn y fuches odro, ac yn llunio a gweithredu strategaeth rheoli gyda'r nod o leihau achosion newydd o fastitis clinigol a'r defnydd o driniaeth wrthfotig ddilynol ar draws y fuches odro.

1.3 Llwyddiannau'r prosiect

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr i'r daliad, gan arwain at wneud arbedion o £57,000 y flwyddyn trwy leihau nifer yr achosion mastitis a'r defnydd o driniaeth wrthfotig. Ar ddechrau'r prosiect, roedd cyfradd mastitis y fuches yn 70 achos fesul 100 buwch y flwyddyn, gan arwain at gost o £120,000 i'r fuches. Y nod cychwynnol oedd ceisio haneru nifer yr achosion mastitis i 35 achos fesul 100 buwch. Fodd bynnag, mae'r targed hwn wedi cael ei orgyrraedd gyda ffigwr y fuches ar hyn o bryd yn 28 achos fesul 100 buwch y flwyddyn.

1.4 Newidiadau mewn Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae perfformiad y fuches yn gyfwerth â'r canlynol:

Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013		Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2017
Gwartheg yn y Fuches (pen)	649	768
% y fuches sydd wedi dod â lloi o fewn 76 12 mis		80
Cyfradd difa (%)	33	28
Cynnyrch fesul buwch (litr)	9,998	10,581
Braster Menyn (%)	3.85	3.83
Protein (%)	3.15	3.30
Cyfrif celloedd somatig (,000)	226	154
Bactoscan	35	48

Ffynhonnell: Kite Consulting MilkMonitor costings

Er bod cynnyrch a maint y fuches wedi cynyddu yn ystod y cyfnod, mae'r cyfrif celloedd somatig wedi lleihau'n sylweddol.

Mae'r busnes yn monitro iechyd a rhesymau dros ddifa. Mae'r newidiadau perfformiad yn cael eu rhestru isod:

	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2017	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013
	Nant Goch	Cyfartaledd y grŵp	Nant Goch	Cyfartaledd y grŵp
Lefelau mastitis (achosion/100 o wartheg)	88	42	28	38
% y gwartheg sydd wedi'u difa o ganlyniad i broblemau Mastitis/Cyfrif Celloedd Somatig/problemau pwrs/cadair	8.6	6.1	2.7	6.0

*Ffynhonnell: Kite Consulting Health & Culling Monitor. **NODER: Mae'r ffigyrau yn y tabl uchod yn wahanol i'r hyn a nodir ar bwynt 1.3 o ganlyniad i gyfnodau gwahanol.***

Nid yn unig mae'r busnes wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion mastitis yn sylweddol, ond mae cyfran y gwartheg sydd wedi cael eu difa o ganlyniad i broblemau mastitis/cyfrif celloedd somatig/problemau pwrs/cadair hefyd wedi gwella'n sylweddol gan olygu bod y busnes yn well na chyfartaledd cymharol y grŵp.

1.5 Sylwadau'r ffermwr

Dyweddodd Bryn Jones, "Tair blynedd yn ôl, roedden ni'n gweld cyfradd uchel iawn o achosion mastitis clinigol gyda nifer o wartheg dro ar ôl tro, a oedd yn costio arian nad oedden ni'n gallu ei fforddio. Roedd aelod o'n grŵp traed lleol eisoes yn defnyddio James Breen i helpu trechu mastitis ac roedd Neil Blackburn o Kite yn ein hannog i wneud yr un fath. Yn dilyn sawl ymweliad gan Dr James Breen, a ariannwyd yn rhannol gan Cyswllt Ffermio, ynghyd â dadansoddi cofnodion, ac yna cyflwyno cynllun mastitis penodol ar gyfer y fferm, rydym wedi gallu targedu'r gylchred mastitis ar ein daliad, yn ogystal â monitro llwyddiant. Roedden ni'n defnyddio llai a llai o diwbiau mastitis, felly roedden i'n gwybod bod nifer yr achosion y gostwng. Er hynny, cefais syndod pan welais fy mod wedi haneru ein costau. Mae'n dangos os byddwch yn rhoi Cynllun Rheoli Mastitis ar waith ac yn ei dilyn, byddwch yn gweld y manteision.

2 Adolygiad Busnes

2.1 Data fferm cymharol

Mae perfformiad y fuches yn gyfwerth â'r canlynol:

	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2017
Gwartheg yn y Fuches (pen)	649	768
% y fuches sydd wedi dod â lloi o fewn 12 mis	76	80
Cyfradd difa (%)	33	28
Cynnyrch fesul buwch (litr)	9,998	10,581
Braster Menyn (%)	3.85	3.83
Protein (%)	3.15	3.30
Cyfrif celloedd somatig (,000)	226	154
Bactoscan	35	48

Ffynhonnell: Kite Consulting MilkMonitor costings

Mae maint a chynnyrch y fuches yn uwch nag o fewn y diwydiant Llaeth yng Nghymru.

Mae'r busnes yn monitro iechyd a rhesymau dros ddifa. Mae'r grŵp yn aelod o grŵp meincnodi fferm, ac mae cymhariaeth y grŵp wedi cael ei ddefnyddio i amlygu'r gwahaniaeth rhwng Nant Goch a'r grŵp.

	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2017	Blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013
	Nant Goch	Cyfartaledd y grŵp	Nant Goch	Cyfartaledd y grŵp
Lefelau mastitis (achosion/100 o wartheg)	88	42	28	38
% y gwartheg sydd wedi'u difa o ganlyniad i broblemau Mastitis/Cyfrif Celloedd Somatig/problemau pwr/cadair	8.6	6.1	2.7	6.0

Ffynhonnell: Kite Consulting Health & Culling Monitor. NODER: Mae'r ffigyrau yn y tabl uchod yn wahanol i'r hyn a nodir ar bwynt 1.3 o ganlyniad i gyfnodau gwahanol.

Roedd y lefelau mastitis a oedd yn wynebu'r busnes ar ddechrau'r rhaglen yn sylweddol, gan arwain at leihad sylweddol mewn iechyd cyffredinol a phroffidioldeb y fferm. Mae'r canlyniadau hyd yn hyn yn syfrdanol, gan arwain at y busnes erbyn hyn yn cyrraedd y 10% ar gyfer lefel mastitis a chyfraddau difa o ganlyniad i haint mastitis, sy'n ganlyniad gwych.

2.2 Canlyniadau Profion

Bu Dr James Breen yn archwilio'r daliad ac ar ôl cwblhau'r ymchwiliad cychwynnol a'r dadansoddiad o adroddiadau fferm, amlygodd bod y prif broblemau ar gyfer Nant Goch yn digwydd yn ystod y cyfnod sych. O ganlyniad, targedwyd y polisiau canlynol:

1. **Gwella gweithdrefnau sychu** - Dipiwch bob buwch cyn sychu, a glanhewch y tethi cyn trwytho cyffuriau gyda gwlan cotwm ac ethyl-alcohol.
2. **Addasu amgylchedd y fowch cyn ac ar ôl lloia** - Llenwi'r llawr delltog presennol, glanhau'r slyri'n ddyddiol, gosod gwelyau tywod dwfn, ychwanegu tywod glân ddwywaith yr wythnos
3. **Addasu amgylchedd gwartheg sy'n lloia** - Lleihau'r dwysedd stocio cyffredinol, glanhau'r deunydd oddi tanynt bob 2-3 wythnos, ychwanegu gwellt glân yn ddyddiol

2.3 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Y targedau cychwynnol oedd haneru lefelau achosion mastitis ar y daliad

2.4 Effaith posibl y prosiect ar y busnes

Os bydd yn llwyddiannus, bydd lleihau nifer yr achosion mastitis yn:

1. Lleihau costau iechyd y fuches gan arwain at gynnydd mewn gwerthiant llaeth (o ganlyniad i waredu llai o laeth yn ystod y cyfnod o ddal llaeth yn ôl).
2. Gwella lles anifeiliaid trwy sicrhau buches fwy iach
3. Gwella morale staff wrth orfod trin llai o anifeiliaid yn ogystal â rhyddhau mwy o amser staff
4. Lleihau defnydd o driniaeth wrthfotig o ganlyniad i lai o anifeiliaid angen triniaeth ar gyfer mastitis
5. Lleihau nifer yr anifeiliaid sydd yn rhaid eu difa o ganlyniad i haint mastitis
6. Cynyddu proffidioldeb cyffredinol y busnes o ganlyniad i lai o gostau iechyd, gan wneud y busnes yn fwy cystadleuol

3 Adolygiad o'r Prosiect

3.1 Dadansoddiad SWOT

CRYFDERAU	<ul style="list-style-type: none">• Cofnodi data'n dda o ran achosion iechedd dros y blynyddoedd• Protocolau triniaeth ar waith i aelodau staff• Cofnodi gyda Sefydliad Cofnodi Llaeth yn galluogi data i gael ei ddadansoddi ar sail fesul buwch
GWENDIDAU	<ul style="list-style-type: none">• Lefelau mastitis a'r costau cysylltiedig yn uwch na chyfartaledd y diwydiant• Triniaeth gyffredinol i wartheg gyda mastitis yn hytrach na thargedu meysydd penodol• Er bod data sy'n cofnodi achosion iechedd ar gael, nid yw'r gwaith o ymchwilio data'n cymryd lle• Heriau cyfathrebu rhwng staff ar wahanol sifftiau i sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn dilyn protocolau ac yn cofnodi data• Cynnydd mewn llwyth gwaith i staff o ganlyniad i lefelau triniaeth
CYFLEOEDD	<ul style="list-style-type: none">• Manteision ariannol sylweddol os yn llwyddiannus• Llai o ofynion llafur o ganlyniad i lai o driniaethau posibl, gan alluogi staff i weithio ar dasgau gwahanol• Llai o risg o glefydau yn y fuches odro trwy leihau niferoedd achosion mastitis• Ffrydiau incwm pellach posibl trwy naill ai cynyddu gwerth buchod i'w difa (llai o wartheg sâl), neu alluogi lleihad yn y gyfradd difa• Lleihad mewn defnydd o driniaeth wrthfotig a'r mathau o wrthfotigau a ddefnyddir gan arwain at lai o risg o ymwrthedd gwrthfotig, llai o wariant ar gyffuriau, lleihad mewn gwerthiant llaeth trwy ostwng faint o laeth sydd angen ei eithrio
BYGYTHIADAU	<ul style="list-style-type: none">• Pris llaeth - serch hynny, mae buddion lleihau lefelau mastitis yn dal i fodoli, ond ar gyfradd is• Mae deddfwriaeth yn ymwneud â defnyddio cyffuriau penodol yn golygu bod posibilrwydd na fydd rhai o'r triniaethau presennol ar gael mwyach• Mwy o risg o orfod gwaredu llaeth o ganlyniad i lefelau uwch o fastitis sy'n arwain at halogi mwy o laeth gyda gwrthfotigau

3.2 Manteision ar gyfer busnesau llaeth eraill yng Nghymru

Mae llwyddiant cyflwyno Cynllun Rheoli Mastitis AHDB Llaeth wedi profi'n fanteisiol i Nant Goch gyda chanlyniadau'n adlewyrchu astudiaethau gwyddonol blaenorol, ac arsylwadau ar ffermydd eraill sydd wedi creu cynlluniau rheoli.

3.3 Cydnawsedd gyda nodau strategol y sector llaeth

Mae'r gwaith yn cyfrannu at amcanion strategol y Sector Llaeth yng Nghymru; yn enwedig mewn perthynas â **Nod strategol 3 - Gwellu perfformiad busnes cynhyrchwyr a phroseswyr mewn ymateb i newidiadau yn y farchnad, gofynion amgylcheddol Newid Hinsawdd a galw gan gwsmeriaid.**

Mae llwyddiant y prosiect wedi gwneud y busnes yn fwy proffidiol o ganlyniad i leihad mewn costau iechyd a difa ynghyd â lleihau'r ôl troed carbon trwy gynyddu allbwn y fuches yn ogystal â bodloni galw cwsmeriaid i wella lles anifeiliaid gan hefyd leihau'r defnydd cyffredinol o driniaeth wrthfotig.

4 Effaith ar y diwydiant

4.1 Effaith ar fusnesau unigol

Yn 2013, roedd y gyfradd mastitis clinigol cyffredinol ar fferm Nant Goch ar gyfartaledd bron i 70 achos i bob 100 i fuchod y flwyddyn ar draws y fuches 700 o wartheg. Pan gyflwynwyd y Cynllun Rheoli Mastitis yn 2014-15, roedd mastitis yn costio oddeutu £117,927 y flwyddyn i'r busnes. Trwy sicrhau lleihad o 50% yn yr achosion mastitis, roedd cyfanswm y gost yn 2015-16 yn £62,894.

O ganlyniad, mae'r fferm hefyd wedi defnyddio 1,536 yn llai o diwbiau mastitis.

	2014-2015	2015-2016
Cyfradd mastitis (achosion/100 o wartheg/y flwyddyn)	57.7	30.8
Cyfanswm y gost*	£120,000	£63,000

* Amcan bris gan ddefnyddio ffigyrau penodol i'r fferm ar gyfer costau achos clinigol o fastitis, gan gynnwys pris llaeth, cost porthiant a gwrtaith, costau triniaeth, amser staff, lleihad mewn cynnyrch llaeth, cyfran o achosion mastitis difrifol, a gwartheg sy'n cael eu difa o'r fuches o ganlyniad i haint mastitis

4.2 Effaith ar y diwydiant ehangach

Mae achos o haint mastitis yn costio £275 ar gyfartaledd (Cynllun Rheoli Mastitis AHDB Llaeth), gydag amrediad rhwng £60 y fuwch am achos ysgafn hyd at gost coleg buwch am achos difrifol.

Pe byddai'r diwydiant Llaeth yng Nghymru'n gallu sicrhau lleihad o 10 achos mastitis am bob 100 buwch bob blwyddyn ar bob fferm laeth yng Nghymru, byddai'r fantais i'r diwydiant dros £6.8 miliwn,

neu'n £3,905 ar gyfartaledd am bob fferm laeth neu 0.3 c/l.

Byddai manteision pellach hefyd yn adeiladu trwy leihau'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd llaeth. Er bod pob Cynllun Rheoli Mastitis AHDB Llaeth yn benodol i'r fferm, gyda'r dulliau rheoli'n dueddol o fod yn wahanol ar bob daliad, mae'r prosiect yn llwyddo i ddangos mantais gweithredu a dilyn y cynllun.

Fodd bynnag, er mwyn gallu gwneud defnydd llawn o'r cynllun, mae'n dibynnu ar gadw cofnodion data effeithiol ynglŷn â chyfraddau mastitis a dulliau trin i sicrhau'r llwyddiant gorau posibl. Mae'n bosibl y bydd angen i rai ffermydd gofnodi mewn mwy o fanylder er mwyn sicrhau'r un lefel o fanteision â Nant Goch.

4.3 Effaith ar themâu trawsbynciol a themâu blaenoriaeth Llywodraeth Cymru

Newid Hinsawdd

Yn ôl y gyfraith, mae gofyn i lywodraeth y DU sicrhau lleihad o 80% o mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'i gymharu â lefelau 1990 erbyn 2050 ar draws y sector amaeth (ceir hefyd targed lleihau yn y cyfamser o 11% erbyn 2020). Mae amaethyddiaeth yn chwarae rôl allweddol er mwyn sicrhau'r lleihad yma. Trwy wella iechyd anifeiliaid, cynyddu allbwn llaeth a lleihau cyfraddau difa, mae Nant Goch wedi gallu sicrhau lleihad o 10g CO₂e yn ei ôl troed carbon am bob litr o laeth (<https://alltech.eco2project.com/Dairy/>). Mae hyn yn gyfanswm o 81t o garbon bob blwyddyn.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

Trwy leihau'r defnydd o driniaeth wrthfotig (oherwydd llai o haint) yn ogystal â gwell iechyd anifeiliaid, mae lefelau lles y fuches wedi gwella sydd wedi arwain at lai o ddifa. Mae hyn yn fantais i'r diwydiant a defnyddwyr trwy amlygu ffyrdd y gall ffermydd ddefnyddio gwaith ymchwil i elwa lles y fuches a lleihau'r defnydd o driniaeth gwrthfotig.

Cenedlaethau'r Dyfodol

Trwy allu lleihau lefelau mastitis yn y fuches laeth, mae'r faintais ariannol yn cynyddu lefelau elw'r fferm yn gyffredinol. Mae hyn yn lleihau costau cynhyrchu ond hefyd yn cadw mwy o arian o fewn yn busnes i alluogi busnesau i gynyddu lefelau elw fferm yn gyffredinol. Mae hyn yn ei dro'n sicrhau bod y busnes yn fwy hyfyw yn y tymor hirach.

Yr Amgylchedd Naturiol

Mae'r lleihad mewn defnydd o driniaeth wrthfotig ar bob fferm yn lleihau lefelau tynnu llaeth yn ôl yn ogystal â lleihau'r perygl o fethiant gwrthfotig, ynghyd â gweddillion gwrthfotig.

Trechu Tlodi

Wrth i ffermydd fod yn fwy proffidiol, mae'r arian ychwanegol fel arfer yn cael ei fuddsoddi'n ôl i'r busnes. Wrth i ffermydd fod yn fwy proffidiol, mae'r arian ychwanegol fel arfer yn cael ei fuddsoddi'n ôl i'r busnes.

Iechyd a Diogelwch

Trwy wella iechyd cyffredinol y fuches gan leihau'r angen i drin y pwrs/cadair, mae'r risg bod aelod staff yn cael ei anafu neu ei gicio gan y buchod yn llai gan nad oes angen cymaint o gyswllt gyda'r anifeiliaid.

Tîm y Prosiect

Bryn & Bev Jones, Nant Goch Matthew Jones, Nant Goch
Nigel Jones a'r tîm ar fferm Nant Goch Rob Edwards – Cain Vets
Neil Blackburn – Kite Consulting Rhys Davies – Menter a Busnes
James Breen - Quality Milk Management Services Ltd Cyswllt Ffermio